



Shared
Regulatory
Services
Gwasanaethau
Rheoliadol
a Rennir

Canllaw byr i **Wasanaethau Rheoliadol a Rennir**



Introduction

Mae Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn cwmpasu ardaloedd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg ac yn gwasanaethu mwy na 600,000 o drigolion a 10,000 o fusnesau.

Mae'r ardal yn cynnwys Caerdydd, Prifddinas Cymru gyda'i hamrywiaeth o sefydliadau diwylliannol, ariannol a masnachol ac ardaloedd gwledig Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg gyda'u heconomïau amaethyddol a thwristiaeth fywiog.



Gair gan ein Pennaeth Gwasanaeth, Dave Holland

"Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i dynnu sylw at yr egwyddorion allweddol sy'n diffinio'r math o wasanaeth yr ydym ni'n anelu at fod; sefydliad sydd â hunaniaeth glir, tîm ysgogol ac ymroddedig, a sylfaen weithredu ariannol gadarn; sefydliad sydd ag enw da am ragoriaeth lle y mae pobl yn defnyddio ein gwasanaethau gan eu bod eisiau gweithio gyda'r gorau.

Ers cychwyn y GRhR yn 2015, mae sgysiaau cyson wedi bod am ad-drefnu ar draws Cymru. Pe byddem wedi disgwyl i'r trafodaethau hyn ddwyn ffrwyth cyn cydweithio, ni fyddwn i byth wedi gwneud unrhyw beth. Nid yw ansicrwydd o ran dyfodol y gwasanaethau cyhoeddus wedi amharu ar ein darpariaeth gwasanaeth.

Ni fyddwn ni'n cyflawni unrhyw beth drwy aros yn llonydd neu wrthsefyll newid. Mae'r byd yn newid o'n cwmpas ac felly er mwyn parhau i fod yn effeithiol ac yn berthnasol, mae'n rhaid i ni newid hefyd drwy gynnig datrysiadau i aelodau etholedig i'r heriau maent yn eu hwynebu, gan sicrhau bod pobl yn deall pwysigrwydd ac effaith ein rôl a drwy ystyried newid fel cynnydd yn hytrach na cham yn ôl."

Ein gweledigaeth

"bod y prif ddarparwr o wasanaethau rheoliadol sy'n diogelu iechyd, diogelwch ac economi'r rhanbarth."

Ein pum blaenoriaeth

- Gwella iechyd a lles
- Diogelu pobl sy'n agored i niwed
- Amddiffyn yr amgylchedd
- Cefnogi'r economi leol
- Manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau

Cynnwys Trefniadau Rheoli a Llywodraethu

Cyd-Bwyllgor

 Cynghorydd Michael Michael Cyngor Caerdydd	 Cynghorydd Dhanisha Patel Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	 Cynghorydd Hunter Jarvie Cyngor Bro Morgannwg	 Cynghorydd Jackie Parry Cyngor Caerdydd	 Cynghorydd David Lewis Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	 Cynghorydd Anthony Hampton Cyngor Bro Morgannwg
---	--	--	--	--	--

Bwrdd Rheoli

 Miles Punter Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai Cyngor Bro Morgannwg	 Andrew Jolley Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	 Andrew Gregory Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas Cyngor Caerdydd	 Dave Holland Pennaeth Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir
--	--	--	---

 Will Lane Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cymdogaeth	 Christina Hill Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Masnachol	 Helen Picton Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Menter ac Arbenigol
--	--	---

Gwasanaethau Cymdogaeth

Mae'r Gwasanaethau Cymdogaeth yn ymdrin yn bennaf â gweithgareddau yn ymwneud ag eiddo preswyl neu weithgareddau sy'n effeithio ar y gymuned leol, ac yn cynnwys:

- Llygredd Sŵn ac Aer
- Trwyddedu Amgylcheddol
- Diogelwch tai mewn eiddo rhent preifat
- Trwyddedu

Gwasanaethau Masnachol

Prif swyddogaeth y Gwasanaethau Masnachol yw sicrhau bod busnesau yn cydymffurfio ag amrywiaeth o ofynion amddiffyn cwsmeriaid a'r cyhoedd mewn meysydd megis :-

- Diogelwch Bwyd (eiddo manwerthu)
- Iechyd a Diogelwch
- Safonau Masnach (eiddo manwerthu)
- Clefydau trosglwyddadwy
- Iechyd porthladd

Gwasanaethau Menter ac Arbenigol





Mae Gwasanaethau Arbenigol a Menter yn ymgorffori gwasanaethau sy'n cynhyrchu incwm ar hyn o bryd neu sydd â'r potensial o gynhyrchu incwm, â dull masnachol tuag at farchnata gwasanaethau'r cyngor gydag arbenigeddau unigryw gan gynnwys:-

- Tir Halogedig ac Ansawdd Aer
- Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Rheoli Plâu (y Fro yn unig)
- Iechyd a Diogelwch (Prosiectau a digwyddiadau)
- Diogelwch Bwyd a Safonau Masnach (nid Manwerthu)
- Prif Ymchwiliadau a diogelu
- Uned Benthycia Arian Anghyfreithlon Cymru
- Labordy mhetroleg
- Cymorth Busnes GRhR
- Gwasanaethau hyfforddi a chyngori
- Partneriaethau Prif Awdurdod

Gwella iechyd a lles


Rydym ni'n cyflenwi amrywiaeth eang o wasanaethau i fusnesau, defnyddwyr a thrioglion. Mae gwaith a wneir i sicrhau bod bwyd yn ddiogel, bod clefydau heintus, sŵn ac allyriadau aer dan reolaeth, bod risgiau yn y gweithle yn cael eu rheoli'n iawn, yn galluogi pobl i fyw mewn amgylcheddau iach.

Ychwanegir at hyn ein gweithgareddau i sicrhau ansawdd eiddo rhent preifat, hyrwyddo amgylchedd masnachu diogel a'n dull o reoleiddio safleoedd trwyddedig i wneud yn siŵr eu bod yn gweithredu'n gryffol. Mae'n amlwg bod y gwaith a wneir gan y GRhR yn hynod bwysig i iechyd a lles y rhanbarth.



DS. Ni chesglir canlyniadau yn y Fro tan 2016 / 17

Busnesau a oedd o'r farn bod archwilio diogelwch bwyd wedi'u helpu nhw i wella safonau hylandid bwyd eu busnes



Busnesau a oedd o'r farn y bydd eu safonau iechyd a diogelwch yn gwella yn dilyn ymyrraeth gan GRhR



Clefydau trosglwyddadwy

Derbyniodd y Gwasanaeth

1312

o achosion o glefyd trosglwyddadwy, y cadarnhawyd 973 ohonynt gan y labordy.

Diogelwch Bwyd

Archwiliwyd

2000+

o fusnesau bwyd mewn perthynas â diogelwch a safonau bwyd ar draws y rhanbarth.

Trwyddedu

Archwiliwyd

1600+

o ddigwyddiadau cymunedol neu dros dro gan alluogi digwyddiadau adloniant a chymunedol lleol i gael eu cynnal yn ddiogel ar draws y rhanbarth. (Pen-y-bont ar Ogwr 234/ Caerdydd 1099/ y Fro 278)


Fforffediadau

18,800+

Fforffedwyd 18,800+ o eitemau a chynhyrchion drwy'r Llys gan gynnwys, sigarennau, dillad ffug, eitemau trydanol a gwisgoedd a theganau plant.

Diogelu pobl sy'n agored i niwed

Mae hon yn thema ganolog i lawer o'r gweithgareddau a gynhelir gan y GRhR. Rydym ni'n ceisio sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag sylweddau a chynhyrchion niweidiol. Caiff pobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed eu hamddiffyn rhag unigolion a masnachwyr diegwyddor. Caiff gweithgareddau benthyg arian anghyfreithlon ar draws Cymru eu herio'n gadarn, ac rydym ni eisiau i'r cyhoedd deimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio taccis fel trafndiaeth gyhoeddus. Rydym ni'n gwneud hyn oll drwy weithio gyda'n cydweithwyr yn y Cyngor a phartneriaid allweddol eraill i helpu'r bobl sydd angen ein cymorth.








Ffigurau o 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017

Amddiffyn yr amgylchedd

Mae samplo dŵr, monitro ansawdd yr aer, ac adfer tir halogedig yn cyfrannu at hyrwyddo amgylchedd gwell sy'n golygu rhagolygon hirdymor gwell ar gyfer iechyd a lles ein cymunedau. Rydym ni'n gwneud mwy drwy sicrhau bod trigolion yn ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag niwsans, drwy ymchwilio i gwynion sŵn ac ymdrin â chŵn a cheffylau strae. Mae gennym ni ran allweddol i'w chwarae yn agendâu ehangach newid hinsawdd a chenedlaethau'r dyfodol drwy ein rôl orfodi o ran rheoli effeithlonrwydd ynni ar eiddo a chynhyrchion. Mae effaith y gweithgareddau hyn yn llai amlwg ar gymunedau yn y tymor byr, ond mae ganddynt rôl bwysig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

% y cwynion sŵn ac ansawdd aer yr ymatebwyd iddynt o fewn 2 ddiwrnod

% y cŵn strae a ddychwelwyd i'w perchnogion neu y cawsant eu hailgartrefu



Trwyddedu

Archwiliwyd

400+

o gerbydau trwyddedig yng Nghaerdydd dros yr uchafswm oedran trwyddedadwy er mwyn sicrhau eu bod mewn cyflwr digonol i barhau i gael eu trwyddedu



Iechyd a Lles Anifeiliaid

Achubwyd

73

o geffylau ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn rhan o ymarfer amlasiantaeth mawr



Llygredd

Ymatebwyd i

5,700+

o gwynion ynghylch aer ar draws y rhanbarth.



Gorfodi Tai

Rhoddwyd cyngor i

2000+

o fyfyrwyr gan Swyddogion Gorfodi Tai GRhR a'r Swyddog Cyswllt Myfyrwyr yn ystod Wythnos y Glas a sesiynau cyngor ar dai gan drafod materion tai, materion amgylcheddol a materion cymdeithasol.

Ffigurau o 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017


Cefnogi'r economi leol

Mae economi leol gadarn yn elfen allweddol o ansawdd bywyd pobl leol. Mae gan waith y GRhR effaith sylweddol, ond yn aml yn anweledig, ar yr economi leol. Gall rhoi cyngor ac arweiniad amserol ar reoliadau fod o fudd i hyfywedd economaidd busnesau gan arwain at well arferion busnes.


Mae ein rôl gynyddol ym maes y Prif Awdurdod – sef cynnig cyngor pwrpasol a chymorth rheoliadau i fusnesau – yn dyst i'r honiad hwn. Mae llawer o'n gweithgarwch gwyliadwriaeth y farchnad yn canolbwyntio ar gynnal cydbwysedd yn y "farchnad"; mae gweithredu dull teg o orfodi rheoliadau yn helpu busnesau i gystadlu ar delerau cyfartal gan sicrhau amgylchedd masnachu tecach.

Mae ein rôl fel rheoleiddiwr hefyd yn cynnwys rhoi gwybodaeth ac addysg er mwyn cefnogi defnyddwyr a'u galluogi nhw i fod yn fwy gwybodus a hyderus. Mewn oes lle y gall pobl brynu nwyddau a gwasanaethau heb adael eu cartref, nid yw pwysigrwydd yr egwyddor "caveat emptor" erioed wedi bod yn fwy perthnasol.

PPN/008 (i) % y busnesau Safonau Masnach newydd a nodwyd ac yr ymwelwyd â nhw



PPN/008 (i) % y busnesau Safonau Masnach newydd a nodwyd ac yr ymwelwyd â nhw



% yr hyfforddeion a oedd o'r farn y bydd yr hyfforddiant y cawsant o fudd i'w busnes



% y rhai a oedd yn bresennol yn Nigwyddiad Diogelwch Bwyd y Prif Awdurdod a oedd o'r farn y bydd y digwyddiad yn eu helpu nhw i wella safonau cydymffurfio yn eu busnesau



Gweithio gyda Busnesau

Hyfforddwyd
71
o unigolion mewn diogelwch bwyd ar amrywiaeth o lefelau.

Gweithio gyda Busnesau

Mae
15
o Bartneriaethau Prif Awdurdod ar waith. Mae hyn yn cynrychioli 7 partneriaeth ychwanegol a grëwyd yn ystod y flwyddyn.

Gweithio gyda Busnesau

Nododd
94%
o'r rhai a oedd yn bresennol yn Nigwyddiad Diogelwch Bwyd y Prif Awdurdod a gynhaliwyd gan y GRhR, fod y digwyddiad yn dda neu'n wych.

Gweithio gyda Busnesau

100%
Nododd 100% o'r rhai a oedd yn rhan o'r Fforwm Busnes Cartrefi Gofal Preswyl a gynhaliwyd gan y GRhR, fod y fforwm wedi bod o fudd i'w busnes.


Manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau

Dyma oedd y catalydd gwreiddiol dros greu'r GRhR, ac mae ein gwaith yn y maes hwn yn parhau. Mae lleihau "treblu" ymdrech, cyflwyno prosesau gwella, gwneud i'n systemau weithio heb ymyrraeth gyson a gwella mynediad i'r gwasanaeth, i gyd o fudd i'n busnesau ac yn gwella bodlonrwydd cwsmeriaid.


Rydym ni'n cynhyrchu incwm, lle y bo'n bosibl, er mwyn ategu'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau; gweithgareddau megis marchnata ein labordy metroleg, cynnig gwasanaethau cynghori wedi'u talu, creu Partneriaethau Prif Awdurdod ac ymestyn ein darpariaeth hyfforddiant i fusnesau. Mae'r rhain oll yn enghreifftiau o'n hymgais i symud tuag at ddiwylliant mwy "masnachol".

Yn bwysicaf oll, rydym yn cydnabod bod y bobl sy'n gweithio o fewn y gwasanaeth yn hanfodol i lwyddiant y GRhR. Rydym ni'n sicrhau bod ein swyddogion yn effeithiol yn eu rolau drwy fuddsoddi mewn cyfleoedd dysgu a datblygu, sicrhau eu bod nhw'n rhan lawn o'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth, a meithrin amgylchedd lle y caiff pobl eu hannog i feddwl, arwain ac arloesi.


Nifer y diwrnodau o absenoldeb salwch cyfwerth ag amser llawn




Lleihad yn nifer y cronfeydd data o bedair i un



% y busnesau bwyd sy'n fodlon â lefel gyffredinol y gwasanaeth



% yr hyfforddeion a nododd fod yr hyfforddiant y cawsant yn wych



Datblygu staff	Gorfodi Tai	Datblygu staff	Cynhyrchu incwm
Cynhaliwyd 100%	Cyflwynwyd 837	Hyfforddwyd 60+	Cynhyrchwyd £12,000
o adolygiadau datblygu perfformiad staff gyda'r staff perthnasol	o Drwyddedau Tai Amleddiannaeth yng Nghaerdydd drwy'r cynlluniau trwyddedu gorfodol ac ychwanegol. Dyma'r lefel uchaf o berfformiad ers i'r cynlluniau trwyddedu gychwyn	o swyddogion i lefel 5 NVQ mewn ymarfer cyfreithiol ac ymchwilol	o incwm newydd drwy weithgareddau mwy masnachol

Cysylltu â ni

grhr.cymru

Ffôn: 0300 1236696

Pen-y-bont ar Ogwr

Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Oriau swyddfa arferol:

Dydd Llun i ddydd Iau: 8.30am i 5.00pm

Dydd Gwener: 8.30am i 4.30pm

Caerdydd

Lefel 1
Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Neuadd y Ddinas
Caerdydd
CF10 3ND

Oriau swyddfa arferol:

Dydd Llun i ddydd Iau: 8.30am i 5.00pm

Dydd Gwener: 8.30am i 4.30pm

Swyddog Cerbydau Cyhoeddus
Sloper Road
Lecwydd
Caerdydd
CF11 8TB

Oriau swyddfa arferol:

Dydd Llun i ddydd Iau: 8.30 am – 12pm a 1.30pm-4pm

Dydd Gwener: 8.30am – 12pm a 1.30pm – 3.30pm

Bro Morgannwg

Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri
CF63 4RU

Oriau swyddfa arferol:

Dydd Llun i ddydd Iau: 8.30 am to 5.00pm

Dydd Gwener: 8.30am to 4.30pm

